



FFURFLEN ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARHOLWR ALLANOL

I'ch helpu chi i gwblhau'r Adroddiad hwn trowch at y *Ffurflen Adroddiad Blynyddol – Canllaw i Arholwyr Allanol*. Mae'r Canllaw a'r Ffurflen hon ar gael yn:

<http://www.caerdydd.ac.uk/regis/ifs/exex/rep/index.html>. Mae ffurflenni gwybodaeth am ffioedd a hawlio ar gael yn:

<http://www.caerdydd.ac.uk/regis/ifs/exex/fees/index.html> .

	I'w lenwi gan yr Arholwr Allanol:		
Enw'r Arholwr Allanol:	Dr Elain Price		
Sefydliad Cartref / Cyflogwr yr Arholwr Allanol:	Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe		
Y Rhaglen a / neu'r Pynciau sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	Newyddiaduraeth – modiwl 'Yr Ystafell Newyddion' (MC2615 / MC3615)		
Y Flwyddyn Academaidd / Cyfnod sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	2014-15	Dyddiad yr Adroddiad:	22 Mehefin 2015

Gofynnir i'r Arholwr Allanol ateb yn y manau a ddarperir. Estynnwch y manau hynny os bydd angen. **Sylwch y caiff y Ffurflen hon ei chyhoeddi ar-lein.**

1. Strwythur y Rhaglen

Dim ond un modiwl yr oeddwn yn ei arholi, ond braf oedd dod ar draws modiwl cyfrwng Cymraeg nad oedd yn gyfieithiad uniongyrchol o fodiwl cyfrwng Saesneg, roedd naws Gymreig a Chymraeg i'r modiwl oherwydd hyn. O ddarllen y llawlyfr a sgwrsio gydag arweinydd y cwrs mae'n amlwg bod y myfyrwyr wedi elwa o brofiadau gwych wrth i siaradwyr gwadd ddod i'w hannerch ac wrth iddynt ymweld â sefydliadau megis y BBC a'r Cynulliad. Mae'n amlwg i mi i'r myfyrwyr gael profiad cyfoethog iawn o astudio'r modiwl hwn.

Mae'r modiwl wedi ei strwythuro yn dda gyda darlithoedd ac asesu sy'n adeiladu dealltwriaeth a sgiliau'r myfyrwyr ac sy'n rhoi cyfle iddynt weld sut y mae eu sgiliau wedi datblygu dros gyfnod y cwrs. Mae'r deilliannau dysgu a nodir yn addas ar gyfer y gwaith sy'n cael ei gyflwyno.

2. Safonau Academaidd

Yn gyffredinol roeddwn yn teimlo bod y marcio ychydig yn hael, ond roedd y marciau yn gweddu i'w gilydd, ac felly nid wyf yn argymhell newid unrhyw farciau. Gan mai dim

ond un modiwl yr oeddwn yn ei arholi a chan nad oes modiwl cyffelyb yn y Saesneg, doedd dim modd cymharu'r marciau â modiwlau tebyg o fewn yr adran. Er hynny hoffwn wneud sylwadau penodol am ddwy agwedd o'r asesu ar y modiwl:

2.1 Iaith

Yng nghyd-destun y tasgau newyddion byddwn yn bersonol wedi marcio a chywiro iaith yn llawer mwy manwl yn enwedig o ystyried mai modiwl newyddiadurol oedd hwn a bod cywirdeb iaith yn bwysig yn y diwydiant. Er hynny, rwy'n deall y ddadl a leisiwyd gan y staff bod yna ffin denau rhwng annog myfyrwyr i ddilyn modiwl trwy'r Gymraeg a meithrin eu hyder a marcio iaith yn rhy galed. Efallai un cyfaddawd posibl fyddai tynnu sylw'r myfyrwyr at fwy o'u gwallau iaith ar destun y gwaith ond heb eu cosbi yn fwy na wneir ar hyn o bryd o ran marciau. Byddai hyn yn galluogi'r myfyrwyr i adnabod eu gwendidau a gwella eu sgiliau.

3.2 Traethawd

Roeddwn ychydig yn siomedig gyda'r traethodau, a hynny gan fod nifer ohonynt yn brin o lyfrau yn eu llyfryddiaeth a gan nad oedd cyfeirnod digonol yng nghorff y testun. Roedd y myfyrwyr gorau wedi ymwneud â ymchwil OFCOM ac adroddiadau diweddar, er hynny yn gyffredinol teimlwn nad oedd digon o ddealltwriaeth neu ymwybyddiaeth o gyd-destun a hanes y cyfryngau yng Nghymru a phrin iawn oedd y drafodaeth o radio yng nghrombil y traethodau. Efallai y dylid ystyried natur y cwestiwn a beth yn union y disgwylir o fewn 1500 o eiriau yn fanylach ar gyfer y flwyddyn nesaf.

3. Y Broses Asesu

Roedd ar y modiwl hwn amrywiaeth o asesu gyda tasgau llunio straeon newyddion, tasgau dadansoddi gwerthoedd a blaenoriaethau newyddion a thraethawd academaidd. Roedd amrywiaeth o sgiliau yn cael eu profi ac roedd y tasgau hefyd yn mesur dealltwriaeth a gallu dadansoddi y myfyrwyr. Roedd y ffaith bod hi'n bosibl i'r myfyrwyr droi eu llaw at ddwy o'r tasgau fwy nag unwaith (o dan amodau gwahanol) yn rhoi cyfle da i'r myfyrwyr weld datblygiad yn eu sgiliau o ddechrau hyd ddiwedd y modiwl.

Teimlaf bod y cydbwysedd y tasgau yn deg ac yn gweithio fel y maent, teimlaf hefyd bod y tasgau wedi eu llunio'n deg er mwyn mesur cyrhaeddiad y myfyrwyr yn erbyn y deilliannau dysgu a nodwyd yn llawlyfr y modiwl.

Fe y nodais uchod, teimlwn ar draws yr holl dasgau bod y marciau ychydig yn hael, o ystyried fy mhrofiad o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol lle rwy'n gweithio. Ond, gan nad oedd modd cymharu'r gwaith hwn gyda modiwl cyfrwng Cymraeg arall o JOMEC, gan mai hwn yw'r unig fodiwl cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, nid oes modd dyfarnu a yw'r gwaith ar yr un safon. Efallai y flwyddyn nesaf dylid rhoi cyfle i mi gael golwg ar enghreifftiau o waith ar yr un lefel yn y ddarpariaeth Saesneg er mwyn gallu sicrhau bod cysondeb ar draws lefelau ac ar draws yr ieithoedd.

Roedd tystiolaeth yma o ail-farcio, ond byddwn wedi dymuno mwy o wybodaeth. Hynny yw, roedd yr adroddiad yn sôn am achlysuron pan yr oedd y marciwr cyntaf

a'r ail-farciwr wedi anghytuno, ond doedd dim digon o fanylion sut y newidiodd y marciau a beth oedd y trafodaethau rhwng y ddau farciwr.

4. Sylwadau o Flwyddyn i Flwyddyn

Amherthnasol – hwn yw'r tro cyntaf i'r modiwl hwn redeg ac felly nid oes sylwadau cyn-arholwr i'w hymgorffori i'r adroddiad hwn.

5. Gweithgarwch Paratoi / Sefydlu (i Arholwyr Allanol newydd yn unig)

Yn anffodus gan i mi gael fy mhenodi ychydig yn hwyr yn y dydd, ni fu'n bosibl i mi fynychu'r sesiwn hyfforddi ar gyfer arholwyr allanol. Er hynny, bu'r broses yn hwylus. Derbyniais y gwaith mewn da bryd i'w ddarllen a'i arholi, a bu'r cyfathrebu yn glir ac yn effeithiol gyda'r adran hefyd. Roedd y llyfrynnau a'r gwaith papur a ddarparwyd er mwyn cynghori yn gynhwysfawr ac yn darparu cymorth clir ar sut i fynd ati i lunio'r dogfennau perthnasol, er hynny byddwn wedi dymuno derbyn Llawlyfr y Byrddau Arholi trwy gyfrwng y Gymraeg.

6. Ymarfer Nodedig a'i Wella

Roedd nifer o agweddau o arfer da yr hoffwn eu nodi. Yn gyntaf, da oedd gweld bod gwahaniaethu clir rhwng y tasgau a osodwyd i Lefel 5 a Lefel 6. Roedd y tasgau ar y lefel uwch yn gofyn am elfen ychwanegol a oedd yn profi sgiliau gwahanol, neu yn dasgau a oedd yn galluogi i'r myfyrwyr ddangos dealltwriaeth a dadansoddi manylach. Roedd hyn yn dda iawn ei weld, gan nad yw wastad yn hawdd sicrhau'r gwahaniaethu hyn wrth ddysgu dwy lefel gyda'i gilydd.

Da hefyd oedd gweld tasgau a oedd yn galluogi i'r myfyrwyr weld cynnydd yn eu dealltwriaeth a'u sgiliau, a hynny gan fod tasgau sgwennu eitem newyddion a dadansoddi gwerthoedd a blaenoriaethau newyddion i'w cael ar ddechrau a diwedd y modiwl. Er hyn roedd digon o amrywiaeth yn amgylchiadau creu'r tasgau i atal ail-adrodd, gan fod yr aseiniadau ar ddechrau'r modiwl yn cael eu creu fel gwaith cartref tra yr oedd y tasgau ar ddiwedd y modiwl yn digwydd mewn amgylchiadau yn debyg i'r hyn a geid mewn ystafell newyddion, a hynny o dan bwysau amser.

Agwedd arall i'w ganmol oedd bod yr adborth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r myfyrwyr yn adeiladol ac yn dangos yn glir sut y gallai myfyrwyr wella eu perfformiad ar bob lefel o gyrhaeddiad. Rwy'n deall hefyd bod pob myfyriwr wedi cael cyfarfod unigol er mwyn trafod pob un dasg yn fanwl, ac mae hyn hefyd i'w ganmol.

O ran agwedd i'w wella, byddwn yn argymhell bod llawlyfr y cwrs yn cael ei anfon at olygydd neu brawf-ddarllenydd er mwyn sicrhau bod unrhyw wallau teipio, ieithyddol a fformatio (h.y. fformatio ffynonellau gan ddilyn system Harvard) yn cael eu cywiro, gan ddangos y safon y dylai'r myfyrwyr anelu ato o ran cywirdeb, eu defnydd o iaith a chyfeirnod.

7. Trosolwg o'r Penodiad (i Arholwyr Allanol sy'n ymddeol, yn unig)

Amherthnasol.

8. Rhestr Wirio'r Adroddiad Blynyddol

Cynhwyswch sylwadau priodol yn Adrannau 1-7 uchod ar gyfer unrhyw ateb 'x'.

		✓	x	Ddim yn gymwys
Gwybodaeth am y Rhaglen/Cwrs				
8.1	A gawsoch chi ddigon o wybodaeth am gynnwys, canlyniadau dysgu ac asesiadau'r Rhaglen?	✓		
8.2	A gawsoch chi gais i roi'ch sylwadau ar unrhyw newid i'r asesu ar y Rhaglen?		x	
Papurau Cwestiwn Drafft yr Arholiadau				
8.3	A ofynnwyd i chi gymeradwyo'r holl bapurau arholiad a oedd yn cyfrannu i'r dyfarniad terfynol?			✓
8.4	A oedd natur, rychwant a lefel y cwestiynau yn foddhaol?			✓
8.5	A wnaed trefniadau addas i ystyried eich sylwadau?			✓
Marcio'r Sgriptiau Arholiad				
8.6	A gawsoch chi ddigon o sgriptiau i allu asesu a oedd y marcio mewnol a'r dosbarthu ar y marciau yn briodol ac yn gyson?			✓
8.7	A oedd safon gyffredinol a chysondeb y marcio yn briodol?			✓
8.8	A farciwyd y sgriptiau mewn ffordd a'ch galluogai chi i weld y rhesymau dros ddyfarnu'r marciau a roddwyd?			✓
8.9	A oeddech chi'n fodlon ar safon a chysondeb y marcio gan yr arholwyr mewnol?			✓
8.10	Yn eich barn chi, a gawsoch chi gyfle i astudio croestoriad digonol o'r gwaith a wnaed gan yr ymgeiswyr ac a gyfrannodd at yr asesiad terfynol?			✓
Gwaith Cwrs ac Asesiadau Ymarferol				
8.11	A oedd y dewis o waith cwrs a/neu asesiadau ymarferol yn briodol?	✓		
8.12	A gawsoch chi weld sampl briodol o'r gwaith cwrs a/neu asesiadau ymarferol yn briodol?	✓		
8.13	A oedd dull yr asesu, a'i safon gyffredinol, yn briodol?	✓		
8.14	A gaiff y myfyrwyr ddigon o adborth ar eu gwaith asessedig?	✓		
Archwiliadau Clinigol (os ydynt yn gymwys)				
8.15	A wnaed trefniadau boddhaol i gynnal asesiadau clinigol?			✓
Samplu Gwaith				
8.16	A gawsoch chi ddigon o amser i ystyried samplau o'r gwaith asessedig?	✓		
Cyfarfod y Bwrdd Arholi				

		✓	✘	Ddim yn gymwys
8.17	A oeddech chi'n gallu dod i'r cyfarfod o'r Bwrdd Arholi?		✘	
8.18	A gafodd y Bwrdd Arholi ei gynnal yn briodol, yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig ac mewn ffordd a oedd yn eich bodloni chi?			✓
8.19	Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod cyfraniad cynhyrchiol yr Arholwyr Allanol at y broses asesu ac yn enwedig at waith y Bwrdd Arholi. A gawsoch chi ddigon o gyfle i drafod y Rhaglen, ac unrhyw bryderon na chawsant eu datrys, gyda'r Bwrdd Arholi neu ei swyddogion?			✓
Y Cyfarfod o'r Cyd-Fwrdd Arholi (os yw'n gymwys)				
8.20	A ddaethoch chi i Fwrdd Arholi Cyfun (h.y. un a alwyd i ystyried dyfarnu graddau cydanrhydedd)?			✓
8.21	Os daethoch, a gawsoch chi wybod am y gweithdrefnau a'r confensiynau ar gyfer dyfarnu graddau cydanrhydedd?			✓
8.22	A gynhaliwyd y Bwrdd Arholi Cyfun yn unol â'i reolau?			✓

Anfonwch yr adroddiad hwn yn ôl, yn fformat Microsoft Word os gallwch chi, drwy e-bost i:

ExternalExaminers@caerdydd.ac.uk

Dylech chi anfon eich ffurflen hawlio ffioedd a threuliau yn electronig i'r cyfeiriad e-bost uchod neu ar ffurf copi caled at:

Clive Brown, Swyddog y Gofrestrfa, Y Gofrestrfa a Gwasanaethau Academaidd, Prifysgol Caerdydd, Tŷ McKenzie, 30-36 Newport Road, Caerdydd, CF24 0DE